

UMAber

Canllawiau Gwerthu Cacennau



Ymwrthodiad: Dim ond arweiniad cyffredinol a gaiff ei ddarparu yn y canllawiau hyn. Ni ddylid ystyried y canllawiau yn gyflawn nac yn ddatganiad awdurdodol ac ni ddylid dibynnu arnynt fel hynny. Ni fydd Undeb Myfyrwyr Aberystwyth yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am unrhyw honiadau neu anghyfleustra a geir o ganlyniad i ddibynnu ar yr wybodaeth yn y canllawiau hyn.

Defnyddir gwerthiant cacennau yn aml ar y campws fel modd o godi arian at glybiau chwaraeon, cymdeithasau ac elusennau. Maen nhw'n boblogaidd ac mae'n bosib codi llawer o arian.

Wedi dweud hynny... ydych chi'n siŵr dydych chi ddim am roi cynnig ar rywbeth gwahanol? Yn gyffredinol, dydy gwerthu cacennau ddim yn creu llawer o elw; gall prynu'r holl gynhwysion ymlaen llaw dynnu £10 neu fwy o'ch elw a phan fyddwch chi'n ystyried yr holl amser rydych chi'n ei dreulio'n pobi ac yn gwerthu, mae'n bosib eich bod chi'n penderfynu bod mwy o ffyrdd effeithlon o godi arian.

Dewch i gael sgwrs gyda'n Cydlynwyr os hoffech chi gael help i feddwl am syniadau.

Os hoffech chi barhau i werthu cacennau, ceisiwch feddwl am sut gallech chi ei wneud yn fwy llwyddiannus. Allwch chi dargedu digwyddiadau neu gynadleddau penodol ar y campws i sicrhau'r posibilrwydd o gael cynulleidfa fawr? Allwch chi werthu cacennau i fyfyrwyr sydd am gael bwyd ar ôl gadael darlith olaf y dydd? Ydych chi wedi ystyried thema neu wisg ffansi? Neu roi gwybodaeth neu daflen gyda'ch cacennau sy'n sôn am sut mae modd cefnogi'ch clwb, cymdeithas neu elusen ymhellach? Gorau po fwyaf creadigol byddwch.

Os ydych chi'n trefnu gwerthiant cacennau, cysylltwch â Matt Lukasiak, ein Cydlynnydd y Cyfryngau a Digwyddiadau drwy e-bostio mul8@aber.ac.uk, a nodi'r canlynol:

- Enw eich clwb, cymdeithas neu'ch enw chi
- Eich enw
- Dyddiad ac amser yr arwerthiant
- Rhestr yr eitemau fydd yn cael eu gwerthu
- Aseiad Risg wedi cwblhau





Rhaid i unrhyw un sy'n pobi, yn gwerthu neu'n dosbarthu cacennau, danteithion a byrbrydau gydymffurfio â'r canllawiau canlynol. Gofyniadau cyfreithiol ydy'r rhan fwyaf ohonynt a chaiff eraill eu gosod gan UMABer er mwyn eich gwarchod chi a'r bobl sy'n prynu eich bwyd. Darllenwch nhw'n ofalus a sicrhewch fod pawb sy'n coginio'n cadw atynt yn gyfangwbl.

Mae croeso i chi holi os oes gennych chi unrhyw gwestiynau.

- Golchwch eich dwylo bob tro cyn paratoi bwyd. Tynnwch unrhyw farnais ewinedd, gemwaith ayyb. Clymwch wallt hir.
- Sicrhewch fod yr holl arwynebau, powlenni, offer ayyb. a ddefnyddiwch i baratoi'n gwbl lân.
- Cadwch fyrbrydau yn yr oergell cyhyd ag sy'n bosib, yn enwedig unrhyw beth sy'n cynnwys hufen ffres.
- Storiwch fyrbrydau mewn bocs glân wedi'i orchuddio, y tu hwnt i fwydydd amrwd, yn enwedig cig amrwd.
- Defnyddiwch efeiliau glân neu napcynnau i weini bwyd.
- Peidiwch â defnyddio wyau amrwd yn unrhyw beth na chaiff ei goginio'n drwyadl, fel eising neu mousse.
- Dan y gyfraith, rhaid i chi ddarparu rhestr o alergenau wrth werthu bwyd. Defnyddiwch y ticflwch isod i ddangos a oes gan unrhyw un o'ch cacennau alergenau a dangoswch hyn yn glir gyda'r byrbrydau.
- Os oes unrhyw alergenau yn eich byrbrydau (e.e. cnau) paratowch a storiwch y byrbrydau hyn ar wahân i'r rheiny sydd ddim yn cynnwys alergenau.
- Hefyd, bydd yn ddefnyddiol cadw rhestr lawn o gynhwysion wrth law rhag ofn bydd rhywun yn gofyn – os nad ydych chi wedi gwneud y byrbrydau a heb gael rhestr, peidiwch â dyfalu os bydd rhywun yn holi ynglŷn â'r cynhwysion!
- Os ydych chi'n gwerthu unrhyw beth oni bai am gacennau a bisgedi, sicrhewch eich bod chi wedi cael caniatâd gan Gydlynedd y Cyfryngau a Digwyddiadau ac wedi rhoi rhestr lawn iddo o'r hyn byddwch chi'n ei werthu.
- Peidiwch â gwerthu bwyd twym neu fwyd wedi'i aildwymo.
- Peidiwch â defnyddio unrhyw fath o gig heb ganiatâd.
- Yn olaf, wrth godi arian, cofiwch nad oes modd codi pris sefydlog ar fwyd, dim ond 'rhodd awgrymedig'. Yn y bôn, gallai rhywun roddi £1 am gacen os hoffai, ond gan amlaf, mae pobl yn fwy hael na hynny! Rhaid i unrhyw label pris nodi rhodd awgrymedig a rhaid i chi ddweud hyn pan fyddwch chi'n dweud y pris wrth bobl.

Am fwy o wybodaeth, rydyn ni'n argymhell dylech chi ymweld â gwefan yr Asiantaeth Safonau Bwyd gan ddefnyddio'r ddolen isod lle mae canllawiau ychwanegol ar gael.

<https://www.food.gov.uk/wales/about-fsa-wales/cymru/diwydiant/hylendid/cyngor-arlwyo-elusennau>





Datganiad o alergenau

I'w gwblhau gan y person sy'n coginio'r byrbryd, ar ôl gwirio'r holl gynhwysion. Os nad ydych chi wedi coginio'r eitem, peidiwch â dyfalu – gallai labelu'ch bwyd yn anghywir achosi adweithiau alergaidd difrifol.

DANGOSWCH UN O'R CARDIAU HYN GYDA PHOB UN O'CH CYNHYRCHION.

This contains the following allergens:				
 Celery <input type="checkbox"/>	 Cereals containing gluten <input type="checkbox"/>	 Crustaceans <input type="checkbox"/>	 Eggs <input type="checkbox"/>	 Fish <input type="checkbox"/>
 <u>Lupin</u> <input type="checkbox"/>	 Milk <input type="checkbox"/>	 <u>Mollusc</u> <input type="checkbox"/>	 Mustard <input type="checkbox"/>	 Nuts <input type="checkbox"/>
 Peanuts <input type="checkbox"/>	 Sesame seeds <input type="checkbox"/>	 Soya <input type="checkbox"/>	 Sulphur Dioxide <input type="checkbox"/>	TICK THE ALLERGENS WHICH ARE IN THE DISH <input checked="" type="checkbox"/>

This contains the following allergens:				
 Celery <input type="checkbox"/>	 Cereals containing gluten <input type="checkbox"/>	 Crustaceans <input type="checkbox"/>	 Eggs <input type="checkbox"/>	 Fish <input type="checkbox"/>
 <u>Lupin</u> <input type="checkbox"/>	 Milk <input type="checkbox"/>	 <u>Mollusc</u> <input type="checkbox"/>	 Mustard <input type="checkbox"/>	 Nuts <input type="checkbox"/>
 Peanuts <input type="checkbox"/>	 Sesame seeds <input type="checkbox"/>	 Soya <input type="checkbox"/>	 Sulphur Dioxide <input type="checkbox"/>	TICK THE ALLERGENS WHICH ARE IN THE DISH <input checked="" type="checkbox"/>

This contains the following allergens:				
 Celery <input type="checkbox"/>	 Cereals containing gluten <input type="checkbox"/>	 Crustaceans <input type="checkbox"/>	 Eggs <input type="checkbox"/>	 Fish <input type="checkbox"/>
 <u>Lupin</u> <input type="checkbox"/>	 Milk <input type="checkbox"/>	 <u>Mollusc</u> <input type="checkbox"/>	 Mustard <input type="checkbox"/>	 Nuts <input type="checkbox"/>
 Peanuts <input type="checkbox"/>	 Sesame seeds <input type="checkbox"/>	 Soya <input type="checkbox"/>	 Sulphur Dioxide <input type="checkbox"/>	TICK THE ALLERGENS WHICH ARE IN THE DISH <input checked="" type="checkbox"/>

This contains the following allergens:				
 Celery <input type="checkbox"/>	 Cereals containing gluten <input type="checkbox"/>	 Crustaceans <input type="checkbox"/>	 Eggs <input type="checkbox"/>	 Fish <input type="checkbox"/>
 <u>Lupin</u> <input type="checkbox"/>	 Milk <input type="checkbox"/>	 <u>Mollusc</u> <input type="checkbox"/>	 Mustard <input type="checkbox"/>	 Nuts <input type="checkbox"/>
 Peanuts <input type="checkbox"/>	 Sesame seeds <input type="checkbox"/>	 Soya <input type="checkbox"/>	 Sulphur Dioxide <input type="checkbox"/>	TICK THE ALLERGENS WHICH ARE IN THE DISH <input checked="" type="checkbox"/>

